Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Adroddiad cychwynnol i Gyd-Bwyllgor GwE ar berfformiad y rhanbarth

## Medi 2018

## CYNNWYS


**1. Cyd-destun**

**2. Safonau**

**Trosolwg o berfformiad – Cynradd ac Uwchradd**

- Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2
- Cyfnod Allweddol 3
- Cyfnod Allweddol 4

**3. Proffil arolygiadau**

**4. Gosod Targedau**

**5. Categoreiddio Cenedlaethol**

## 1. CYD-DESTUN

### DATA CYMHAROL

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn wahanol i'r hyn a gyflwynwyd yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newidiadau sylweddol i sut yr adroddir ar fesurau perfformiad. Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon, ni chyhoeddir data cymharol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 na Chyfnod Allweddol 3 yn yr ysgol, ar lefel yr awdurdod lleol nag ar lefel consortia. Felly, y tu hwnt i gymhariaeth â chyfartaleddau cenedlaethol, nid oes unrhyw wybodaeth gymharol na meincnodol ar gael.

### NEWIDIADAU I FEYSYDD DYSGU’R CYFNOD SYLFAEN

Ym mis Hydref 2014, cafodd Meysydd Dysgu’r Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu a Datblygiad Mathemategol eu diwygio fel eu bod wedi’u halinio â’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (y FfLlRh) ac fel eu bod yn gofyn llawer mwy. Yn unol â hyn, cafodd deilliannau’r Cyfnod Sylfaen eu haddasu er mwyn eu halinio â disgwyliadau uwch y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cafodd y Meysydd Dysgu diwygiedig eu cyflwyno ar sail statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Golyga hyn mai’r cohort o blant a ddechreuodd yn y Derbyn ym mis Medi 2015 fydd y cyntaf i gael ei asesu’n ffurfiol yn erbyn y deilliannau newydd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn ystod haf 2018. Felly, dylid osgoi cymharu canlyniadau’r Cyfnod Sylfaen gyda chanlyniadau blynyddoedd blaenorol gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol.

### CA4 A CA5

Pwysleisir mai gwybodaeth gychwynnol am ganlyniadau CA4 a gaiff ei rhannu ac nad oes mynediad, hyd yma, at ddata cymharol a meincnodol. Y bwriad yw diweddaru’r isod pan ddaw’r wybodaeth gyflawn i law.

Mae angen gofal felly wrth ystyried yr wybodaeth gan na fydd y dadansoddiadau na’r cymariaethau yn cael eu cwblhau ar lefel genedlaethol tan tua throad y flwyddyn. Caiff gwybodaeth am berfformiad CA5 ei chynnwys pan fydd data cymharol a gwerth ychwanegol wedi cael ei ryddhau.

## 2. SAFONAU

### CYNRADD – TROSOLWG O BERFFORMIAD AR DRAWS Y RHANBARTH

### CYFNOD SYLFAEN

Mae canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen eleni yn dangos gostyngiad cenedlaethol o’u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Y prif reswm am hyn yw bod deilliannau newydd o’r Fframwaith Asesu CS wedi cael eu defnyddio mewn Ieithoedd a Mathemateg. Mae llawer o athrawon o dan yr argraff bod disgwyliadau uwch i gyflawni Deilliant ac mae hwn yn un ffactor sydd wedi arwain at lai o ddisgyblion yn cyflawni Deilliant 5.

Mae’r gostyngiad cenedlaethol hwn yn y canlyniadau yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau’r rhanbarth. Mae GwE wedi rhagdybio hyn ac wedi canolbwyntio ar wella’r

ddarpariaeth yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, a fydd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cyrraedd cyflawni deilliannau uwch erbyn i'r disgyblion gyrraedd diwedd y Cyfnod Allweddol.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Er bod perfformiad wedi gostwng yn rhanbarthol, mae'r gostyngiad yn is na'r gostyngiad cenedlaethol ar ddeilliant disgwyliedig (O5+) ac eithrio ILIC(C). Mewn perthynas â'r deilliant uwch na'r disgwyl (O6+), mae'r gostyngiad rhanbarthol yn sylweddol is na'r gostyngiad cenedlaethol ar draws pob ardal.
- Yn gyffredinol, mae perfformiad deilliant 6+ yn parhau i fod yn gryf.
- Mae ysgolion wedi ymateb yn dda i'r amrywiaeth o weithdai hyfforddi cyfnod sylfaen a chyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer UDRh, athrawon a staff cymorth. Mae'r ffaith bod ysgolion wedi codi lefel yr her i ddiwallu gofynion newydd deilliant 6 yn dystiolaeth o hyn.

**Meysydd i'w gwella**

- Gwella perfformiad disgyblion PYD ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch na'r disgwyl.
- Gwella perfformiad bechgyn ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch na'r disgwyl yn ILIC(C), ILIC(S) a DPCh.
- Datblygu'r defnydd o ddata bach i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau.
- Cryfhau gweithio clwstwr ymhellach er mwyn hyrwyddo cydweithrediad a rhannu arferion da.

**CA2**

Mae canlyniadau CA2 y rhanbarth yn gadarn. Mae perfformiad eleni ar y lefel ddisgwyliedig yn cyfateb i'r canlyniadau a gafwyd y llynedd i raddau helaeth ac yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y DPC. Yr unig eithriad yw bod perfformiad y Gymraeg ar y lefel ddisgwyliedig ychydig yn is. Mae'n bosibl fod hyn oherwydd bod mwy o ddysgwyr wedi cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf nag erioed o'r blaen. Fodd bynnag, mae canran y dysgwyr sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg ail iaith wedi cynyddu eto am y bumed flwyddyn.

Ar y lefelau uwch, mae perfformiad yn parhau i fod yn gadarn ym mhob pwnc. Cafwyd gwelliant nodedig yng nghanlyniadau Cymraeg ail iaith. Gostyngodd yr amrywiaeth rhwng bechgyn a merched eleni ac mae bellach yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae dysgwyr PYD wedi cynnal y canlyniadau a gafwyd y llynedd ar wahân i'r Gymraeg lle y cafwyd llai o ddisgyblion PYD yn llwyddo i gyrraedd y lefelau disgwyliedig. Fodd bynnag, cafodd y nifer uchaf erioed o ddisgyblion PYD eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

O gymharu data diwedd Cyfnod Allweddol 2 eleni â data diwedd Cyfnod Sylfaen 2014, mae disgyblion cyfatebol y rhanbarth, ar gyfartaledd, wedi gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Mae perfformiad Cyfnod Allweddol 2 yn parhau i fod yn gryf ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch na'r disgwyl.
- Mae canran uwch o ddysgwyr a aseswyd drwy gyfrwng y Gymraeg fel ail iaith wedi cyflawni ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch na'r disgwyl.

- Mae ysgolion wedi ymateb yn dda i'r rhaglenni hyfforddi amrywiol a ddarparwyd ar Lythrennedd, Rhifedd ac Addysgu. Mae'r ffaith bod perfformiad cryf a chyson yn yr holl bynciau craidd yn dystiolaeth o hyn.
- Mae cohort CA2 eleni wedi gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn ystod eu cyfnod yn CA2.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.
- Cryfhau gweithio clwstwr ymhellach er mwyn hyrwyddo cydweithrediad a rhannu arferion da.
- Sicrhau bod ysgolion sy'n dewis newid eu polisi asesu ac asesu dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cefnogi'n llawn.

## UWCHRADD – TROSOLWG O BERFFORMIAD AR DRAWS Y RHANBARTH

### CYFNOD ALLWEDDOL 3

Mae perfformiad y prif ddangosydd [DPC] yn CA3 yn gadarn unwaith eto ac yn dangos gwelliant pellach ar ffigur 2017 [+0.6% o'i gymharu â chynnydd cenedlaethol o +0.7%]. Mae'r rhanbarth yn parhau i berfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol [+1.3% 2017 ac +1.2% 2018].

Mae perfformiad bechgyn a merched wedi gwella yn y prif ddangosydd [+0.3% a + 0.8% yn eu tro]. Mae'r ddau berfformiad yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2017 a 2018 gyda'r bwlch yn lledu ar gyfer merched. Fodd bynnag, mae'r bwlch rhywedd rhanbarthol wedi cynyddu o +0.5% i 7.0% yn 2018 gyda merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn. Yn genedlaethol, mae'r bwlch rhywedd wedi cau o 0.4% ac mae'r ffigur ar gyfer y rhanbarth yn 2018 yn cyfateb i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn ogystal, cafwyd cynnydd o +0.4% yng nghanran y disgyblion PYD a gyflawnodd y dangosydd DPC. Nid oes data cenedlaethol ar gael ar gyfer 2018 ar hyn o bryd. Tra bo perfformiad disgyblion PYD wedi gwella'n raddol dros dreigl tair blynedd, cafwyd cynnydd o +0.2% yn y bwlch rhwng disgyblion PYD/dim PYD yn 2018 a'r ganran ar hyn o bryd yw 18.2%. Y ffigur cenedlaethol cyfatebol yn 2017 oedd 20.3%

***Cymraeg*** **:**

Gwelir gwelliannau pellach yn safonau'r Gymraeg ar y lefel ddisgwyliedig yn 2018. Mae'r perfformiad rhanbarthol wedi cynyddu o 0.3% i 94.2%. Mae hyn mewn cymhariaeth gyda'r cynnydd cenedlaethol cyfatebol. Mae'r perfformiad rhanbarthol yn parhau i fod +0.4% yn uwch na'r ffigur cenedlaethol. Mae perfformiad bechgyn wedi disgyn -1.6% i 79.4% a hynny mewn cymhariaeth gyda chynnydd cenedlaethol o +0.7%. Gwelir gostyngiad bychan ym mherfformiad y merched hefyd, a hynny eto mewn cymhariaeth gyda chynnydd cenedlaethol o +0.6%. Eleni, mae'r bwlch bechgyn/merched wedi cynyddu o +1.4% i 10.8%. Yn genedlaethol, gwelir gostyngiad bychan yn y bwlch i 11.9% o blaid y merched. Mae perfformiad dysgwyr PYD wedi cynyddu o +0.4% i 73.9%. Y ffigur cenedlaethol ar gyfer 2017 oedd 70.8%. Mae'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr PYD/dim PYD wedi cynyddu o 18.0% i 18.2%. Roedd y bwlch cenedlaethol yn 20.3% yn 2017.

Ar lefel 6+, gwelir gostyngiad bychan o -0.3% i 66.8%, ond bu cynnydd o +0.9% i 63.8% yn genedlaethol. Mae perfformiad y bechgyn wedi gostwng o -2.9% i 55.8% ond mae'n parhau i fod yn uwch na'r ffigur cenedlaethol o 53.5%. Mae'r merched wedi cynyddu o +2.5% i 78.2% mewn cymhariaeth â chynnydd o +1.6% ar lefel Cymru. Yn 2018, mae'r perfformiad rhanbarthol ar gyfer merched +4.4% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r bwlch bechgyn/merched wedi cynyddu o 5.4% i 22.4% yn 2018. Gwelwyd cynnydd cenedlaethol o +1.2% i 20.3%. Mae perfformiad dysgwyr PYD wedi gwella +0.4% ar L6+ ac mae'r perfformiad o 73.9% yn uwch na'r ffigur cenedlaethol ar gyfer 2017 [70.8%]

Ar lefel 7+, gwelir cynnydd o +3.7% i 26.3% a hynny mewn cymhariaeth gyda chynnydd cenedlaethol o +2.8% i 22.5%. Mae perfformiad y bechgyn a'r merched wedi gweld cynnydd ar ffigurau 2017 [+2.6% B a +4.8% M] ac mae'r perfformiad [19.3% a 33.5%] yn uwch na'r ffigurau cenedlaethol cyfatebol o 15.8% a 29.0%

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Mae'r perfformiad rhanbarthol wedi cynyddu o 0.3% i 94.2% ac yn parhau +0.4% yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol.
- Ar lefel 6+ mae'r merched wedi cynyddu o +2.5% i 78.2% mewn cymhariaeth â chynnydd o +1.6% ar lefel genedlaethol.
- Ar lefel 7+,mae'r perfformiad yn uwch na'r ffigurau cenedlaethol cyfatebol.

**Meysydd i'w gwella**

- Parhau i wella perfformiad bechgyn.
- Parhau i wella perfformiad dysgwyr PYD yn arbennig ar y lefelau uwch.
- Parhau i gefnogi'r adrannau ble mae pryder am safonau.

***Saesneg*** **:**

Mae perfformiad Saesneg CA3 yn parhau i fod yn gadarn ac yn gyson. Mae perfformiad GwE yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar Lefel 5+ a 6+.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Mae perfformiad ar Lefel 5+ wedi cynyddu o 0.4% i 92% ac mae perfformiad ar draws pob AALl yn parhau i fod yn gadarn ac yn gyson.
- Mae gwella safonau Llythrennedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer pob ysgol ac mae ansawdd y darpariaethau Llythrennedd wedi gwella. Mae tîm GwE wedi cefnogi hyn drwy ddatblygu hyfforddiant ac adnoddau o ansawdd uchel.
- Perfformiad ar Lefel 6+ wnaeth y cynnydd mwyaf o 2.7% ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffocws rhanbarthol ar herio dysgwyr mwy abl yn CA3.
- Mae perthnasau gwaith cryfach, mwy cydweithredol yn datblygu rhwng adrannau Saesneg ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd bwydo, ac adlewyrchir hyn yn arferion yr ystafell ddosbarth.
- Mae'r amrywiaeth rhwng perfformiad bechgyn/merched mewn Saesneg yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud eleni i adolygu strwythurau cwrs CA3 ac i sicrhau bod methodolegau/deunydd mwy dynamig ac ymgysylltiol yn cael eu defnyddio.

**Meysydd i'w gwella**

- Gwella perfformiad Dysgwyr PYD yn Saesneg yn parhau i fod yn flaenoriaeth, yn arbennig ar Lefel 5+ lle y mae'r bwlch rhwng dysgwyr PYD/dim PYD wedi lledu rhywfaint o 1.5%.
- Cynnal peilot o'r 'Rhaglen Ymyrraeth Lythrennedd' mewn nifer fach o ysgolion uwchradd targed er mwyn gwella perfformiad dysgwyr PYD mewn Saesneg. Rhannu'r arfer hwn a rhaeadru'n rhanbarthol.
- Darparu hyfforddiant a chymorth i sicrhau bod y FfCD yn cael ei ymgorffori'n effeithiol yn CA3 i godi safonau.
- Parhau i gefnogi ysgolion i wella perfformiad bechgyn, yn arbennig ar Lefel 6+.
- Datblygu methodoleg ar gyfer addysgu ysgrifennu yn CA3 er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu paratoi'n well ar gyfer TGAU.

***Mathemateg*** **:**

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Mae'r L5+ wedi cynyddu.
- Mae 30 ysgol wedi gwella eu perfformiad L5+ [56%], gyda 4 ohonynt wedi cynyddu'n sylweddol [7%].
- Mae 26 o ysgolion wedi gwella eu perfformiad L6+ [48%], gyda 12 ohonynt wedi cynyddu'n sylweddol [22%].

**Meysydd i'w gwella**

- Mae'r ganran ar gyfer L6+ wedi gostwng rhywfaint.
- Mae perfformiad L5+ 22 o ysgolion wedi gostwng [41%], gyda pherfformiad 2 ysgol wedi gostwng yn sylweddol [4%].
- Mae perfformiad L6+ 27 o ysgolion wedi gostwng [50%], gyda pherfformiad 8 ysgol wedi gostwng yn sylweddol [15%].
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer meistroli Mathemateg ar draws y rhanbarth – er mwyn alinio'r addysgeg â'r cyfeiriad y mae'r cwricwlwm yn ei ddatblygu.
- Gwella'r addysgu a'r dysgu yn yr adrannau.
- Creu cynlluniau ar y cyd mewn clystyrau o ysgolion uwchradd ar gyfer y cwricwlwm newydd.

***Gwyddoniaeth*** **:**

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Mae canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Gwyddoniaeth wedi cael ei gynnal ers 2017 (2017 = 94.6%, 2018 = 94.5%).
- Mae 29 o ysgolion (53.7%) wedi cynnal/gwella eu perfformiad lefel 5+ ers 2017.
- Mae 10 o ysgolion (18.5%) wedi cyflawni 100% ar lefel 5+, sy'n gynnydd o 100% o'i gymharu â 2017.
- Mae cynnydd wedi bod bob blwyddyn ym mherfformiad lefel 6+ ar draws y rhanbarth.
- Mae 32 o ysgolion (60.4%) wedi gwella eu perfformiad ar lefel 6+ ers 2017, gyda 6 ysgol (11.3%) yn gwneud cynnydd o dros 10%.

- Mae 30 o ysgolion (56.6%) wedi gwella eu perfformiad ar lefel 7+ ers 2017, gyda 11 ysgol (20.8%) yn gwneud cynnydd o dros 5%.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae perfformiad disgyblion PYD ar bob lefel yn is na pherfformiad dysgwyr nad ydynt yn ddisgyblion PYD, ac mae'r bwlch wedi cynyddu rhywfaint yn 2018 ar lefel 5 a lefel 6+.
- 20.7% yw'r amrywiaeth ym mherfformiad disgyblion PYD ar lefel 7+.
- Mae perfformiad lefel 6+ 21 o ysgolion (39.6%) wedi gostwng ers 2017, gyda pherfformiad 7 ysgol (13.2%) yn gostwng o dros 10%.
- Mae perfformiad lefel 7+ 23 o ysgolion (43.4%) wedi gostwng ers 2017, gyda pherfformiad 5 ysgol (9.4%) yn gostwng o dros 10%.
- Mewn llawer o ysgolion, nid yw cynlluniau gwaith/cwricwlwm CA3 yn paratoi'r dysgwyr na'n cefnogi dysgu'n ddigonol yn CA4.

**CYFNOD ALLWEDDOL 4**

**GWYBODAETH GYD-DESTUNOL AR GYFER ARHOLIADAU 2018**

Yn dilyn y newidiadau yn 2016-17, mae anghysondeb sylweddol yn parhau i fod mewn perthynas â deilliannau TGAU. Mae'r newidiadau sylweddol i batrwm a nifer y disgyblion a safodd arholiadau yn ystod Haf 2018 wedi cael effaith ar ganlyniadau, fel y gwelir yn y ffaith bod cyfran y graddau A+ i C ar draws yr holl bynciau yng Nghymru wedi gostwng 1.2yp i 61.6%.

Mae TGAU yn y broses o gael eu diwygio ac fe gafodd 15 o bynciau diweddaredig eu sefyll am y tro cyntaf yn ystod yr haf hwn.

Cafodd y gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth eu harchwilio am y tro cyntaf yn 2018, ac mae'n cyd-fynd â'r newidiadau i'r dangosyddion perfformiad yn CA4, i gynnwys un canlyniad TGAU yn unig ar gyfer Gwyddoniaeth, fel dau fesur yn y dangosydd 9 wedi'i gapio. O ganlyniad, nid yw cymharu â data hanesyddol yn berthnasol. Roedd ysgolion yn gallu dilyn trywydd y llwybrau canlynol: Gwyddoniaeth (Dyfarniad Triphlyg), Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl), Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl), a Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl). Gan fod y dangosydd 9 wedi'i gapio yn cynnwys dau fesur Gwyddoniaeth, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dilyn y llwybrau dwbl a thriphlyg.

Mae newidiadau sylweddol wedi bod i ffiniau graddau ers Haf 2017 a mis Tachwedd 2017 o'u cymharu â Haf 2018, yn arbennig ar radd C mewn Saesneg a Mathemateg. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd i ysgolion sicrhau bod y rhagamcanion a'r targedau cywir yn cael eu gosod. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod data ysgolion wedi cael ei ddylanwadu yn sylweddol gan benderfyniadau cofrestriadau.

Dylid ystyried perfformiad ysgol yn ôl trywydd ei pherfformiad ei hun gan nad yw'n briodol cymharu ysgolion â'i gilydd oherwydd y gwahanol gyd-destunau a'r gwahanol gamau gwelliant.

**DADANSODDIAD CYCHWYNNOL – CYFNOD ALLWEDDOL 4**

Mae'n anodd dod i unrhyw gasgliad arwyddocaol ar y pwynt hwn o ganlyniad i'r newidiadau mawr i'r cwricwlwm a'r ffiniau graddau, a'r diffyg cymaryddion cenedlaethol. Mae gwaith ar y

gweill o hyd i goladu'r 9 wedi'i gapio. Yr L2+ a Saesneg yw'r dangosyddion sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau uchod.

Yn 2018, cafwyd gostyngiad o -1.7% i 51.9% yn y prif ddangosydd [L2+] o'i gymharu â 2017, gyda gostyngiad o -1.8% ar L1. Cafwyd cynnydd bach o +0.1% i 65.4% ar L2 tra bo 5A*/A wedi aros ar 14.8%. Mae ffigurau cychwynnol ar gyfer perfformiad PYD yn siomedig gyda gostyngiad ar draws yr holl brif ddangosyddion. Cafwyd gostyngiad ym mherfformiad L2+ o 26.9% yn 2017 i 24.6% [cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2017 oedd 28.6%].

**Cymraeg:**

Dyma ail flwyddyn y cymhwyster ar ei newydd wedd, gyda 70% o'r pwnc yn ddibynnol ar berfformiad mewn dau arholiad allanol a 30% yn waith llafar. Eleni, gwelwyd cynnydd o +1.0% ar ffigur 2017 gyda pherfformiad 2018 yn 71.6%. Mae perfformiad dysgwyr PYD, fodd bynnag, -4.5% yn is na ffigur y llynedd. Mae perfformiad 10 ysgol [45.4%] yn well na pherfformiad 2017 ac mae 2 ysgol [9.1%] wedi gwneud gwelliannau sylweddol eleni. Ar ddangosydd Lefel 2, mae mwyafrif ysgolion y rhanbarth wedi croesi trothwy 70%+. Gwelwyd lleihad sylweddol ym mherfformiad 3 ysgol [13.6%].

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Cynnydd o +1.0% ar ffigur 2017 gyda pherfformiad 2018 yn 71.6%.
- Mae mwyafrif ysgolion y rhanbarth wedi croesi trothwy 70%+ ar ddangosydd Lefel 2.

**Meysydd i'w gwella**

- Parhau i wella perfformiad dysgwyr PYD.
- Parhau i gefnogi'r adrannau lle mae pryder am safonau.

**Saesneg**:

Mae perfformiad TGAU Saesneg wedi gostwng yn rhanbarthol eleni o 61.6 (2017) i 56.2% mewn perthynas â graddau A* i C. Mae problemau gyda'r newidiadau i ffiniau graddau CBAC a mynediad at gyfleoedd mynediad cynnar wedi effeithio berfformiad Saesneg Iaith ar draws y rhanbarth. Mae angen ymchwilio ymhellach i hyn. Mae perfformiad yn parhau i fod yn broblem mewn perthynas ag adrannau ysgrifennu'r ddau bapur ar hyd a lled Cymru. Mae sgôr gyfartalog yr adrannau ysgrifennu oddeutu hanner y marciau am ansawdd a chywirdeb ysgrifennu'r disgyblion.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- O'r 7 ysgol yn y categori cymorth coch, mae 5 ohonynt wedi gwella ers 2017.
- Mae rhan fwyaf o'r ysgolion a gafodd gymorth dwys gan dîm Saesneg GwE wedi gweld cynnydd yn eu perfformiad ers y llynedd.
- Mae DPP o ansawdd uchel a ddarparwyd eleni wedi cael ei ganmol gan Benaethiaid Adran a Phenaethiaid. Mae Penaethiaid Adran wedi derbyn hyfforddiant o ansawdd uchel i'w cefnogi hwy yn y rôl.
- Mae hyfforddi athrawon sy'n tanberfformio a modelu rhagoriaeth mewn nifer fach o ysgolion wedi bod yn llwyddiannus wrth wella safonau addysgu a dysgu.

**Meysydd i'w gwella**

- Gwella safonau TGAU Saesneg drwy dargedu a chefnogi adrannau sy'n tanberfformio.
- Gwella safonau cyrhaeddiad adrannau ysgrifennu'r arholiadau drwy hyfforddiant rhanbarthol a chymorth i ysgolion unigol.
- Gwella perfformiad dysgwyr A/A* mewn TGAU Saesneg.
- Gwella'r broses o dracio a monitro perfformiad disgyblion drwy weithredu system dracio ac asesu rhanbarthol.
- Gwella profiadau addysgu a dysgu drwy hyfforddi, modelu a datblygu arferion yn yr ystafell ddosbarth.

**Mathemateg:**

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau ar gyfer y radd orau ar draws y siroedd wedi aros yn gyson. Mae'r cyrhaeddiad ar gyfer Rhifedd yn gryfach yn gyffredinol yn ein hysgolion ar draws y rhanbarth. Darlun positif a geir o'r data sy'n bodoli'n gyffredinol, ond mae rhai ysgolion yn peri pryder – yn enwedig lle y mae'r gwahaniaeth rhwng Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd yn sylweddol, neu lle y mae gwahaniaeth sylweddol mewn perfformiad o gymharu â chanlyniadau 2017.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Mae perfformiad Mathemateg 30 ysgol [55.5%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran.
- Mae perfformiad Mathemateg-Rhifedd 31 ysgol [57.4%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran.
- Mae 32 [59.2%] o ysgolion wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ar gyfer y radd orau o'i gymharu â chanlyniadau 2017, gyda 6 ysgol [1.1%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran.
- Ymchwilio i adrannau sy'n gweithio'n effeithiol er mwyn rhannu'r arferion gorau ar draws y rhanbarth.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae 6 ysgol [11.1%] wedi gweld gostyngiad sylweddol yn eu perfformiad Mathemateg – bydd angen ymweliadau sydyn i'r ysgolion hyn er mwyn darganfod pam fod y canlyniadau wedi gostwng.
- Mae 4 ysgol [7.4%] wedi gweld gostyngiad sylweddol yn eu perfformiad Mathemateg-Rhifedd – sef yr un ysgolion â'r rhai y mae eu canlyniadau Mathemateg wedi gostwng yn sylweddol.
- Mae 4 ysgol [7.4%] wedi gweld gostyngiad sylweddol yn eu perfformiad ar gyfer y radd orau mewn Mathemateg.
- Craffu ar y profiadau addysgu a dysgu y mae'r disgyblion yn eu derbyn yn yr ysgolion lle y mae Rhifedd yn wannach na Mathemateg (5 o ysgolion gyda gwahaniaeth o 4% neu fwy) – a gweithio gyda'r ysgolion hyn i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Rhifedd.
- Sicrhau bod y cwricwlwm a ddarperir yn rhoi sylw teg i Fathemateg a Mathemateg gan weithio gyda'r ysgolion lle y mae'r canlyniad ar gyfer Mathemateg yn sylweddol is na'r canlyniad ar gyfer Rhifedd.
- Gwella'r addysgu a dysgu yn yr adrannau lle y maent wedi tanberfformio – gyda'r flaenoriaeth ar ysgolion lle y mae hyn wedi ffurfio patrwm dros amser.
- Gwella ansawdd yr arweinyddiaeth mewn adrannau lle y mae Penaethiaid Adran/Cydlynwyr Rhifedd newydd, neu lle y mae arweinyddiaeth yn wan.

***Gwyddoniaeth*:**

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Mae 62.8% o ddisgyblion y rhanbarth wedi cyflawni o leiaf un TGAU Gwyddoniaeth ar L2+.
- Mae cynnydd o 11.8% wedi bod mewn perfformiad ers diwedd blwyddyn 10 pan oedd 51% o ddisgyblion ar drac i gyflawni o leiaf un TGAU Gwyddoniaeth ar lefel 2.
- Mae pob un o'r 54 ysgol wedi gwneud gwelliannau ers canlyniadau diwedd blwyddyn 10, ac mae canlyniadau 12 ysgol (22%) wedi gwella o 20% neu fwy.
- Mewn 9 ysgol (16.6%), roedd y lefel 2 yn uwch na 80%, gydag un ysgol yn cyflawni 90%.
- Mewn 26 ysgol (48.1%), roedd y lefel 2 yn uwch na 70%.

**Meysydd i'w gwella**

- Methodd 8 ysgol (14.8%) â chyflawni dros 50%.
- Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd L2 yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth o 40.5 i 90%.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad CA4 a'r rhagamcanion mewnol yn peri pryder mewn llawer o ysgolion. Nid yw systemau tracio data, sicrwydd ansawdd a phrosesau safoni asesiadau mewnol yn ddigon cadarn, ac nid yw llawer o adrannau yn gallu rhagdybio deilliannau gyda lefel dda o gywirdeb.

## 3. PROFFIL AROLYGIADAU

Mae'r proffil arolygiadau yn dda ar draws y ddau sector yn y rhanbarth. Yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018, cynhaliodd Estyn arolygiadau mewn 69 o ysgolion (59 ysgol gynradd, 7 ysgol uwchradd a 3 ysgol arbennig). (Bydd data swyddogol yn cael ei ryddhau ym mis Medi 2018).

Cynradd – Cyhoeddwyd nad oedd angen unrhyw gamau gweithredu dilynol mewn 51 ysgol (86.4%) o'i gymharu â 77.6% yn 2016-17; roedd 13.6% angen camau gweithredu dilynol o'i gymharu â 24.2% yn 2016-17. Dyfarnwyd y categori dilynol lleiaf dwys i 7 ysgol (11.9%) [Adolygiad Estyn] a dyfarnwyd y categori dilynol Gwelliant Sylweddol i 1 ysgol (1.7%).
Mae 13 ysgol mewn categori dilynol ar hyn o bryd.

Mae canran yr ysgolion a gafodd ddyfarniadau rhagorol wedi cynyddu o 2.4% yn 2016/17 i 13.2% yn 2017/18.

Uwchradd – Cyhoeddwyd nad oedd angen unrhyw gamau gweithredu dilynol mewn 4 ysgol; dyfarnwyd y categori dilynol lleiaf dwys i 2 ysgol [Adolygiad Estyn] ac fe gafodd un ysgol ei rhoi mewn Mesurau Arbennig. Mewn 6 ysgol [85.7%], dyfarnwyd bod maes arolygu 2 [Lles ac agweddau at ddysgu] a 4 [Gofal, Cymorth ac Arweiniad] yn dda neu'n well. Yn ystod 2017-18, cafodd 3 ysgol uwchradd ranbarthol eu tynnu o'r categori statudol ac fe gafodd 4 arall eu tynnu o weithrediad Monitro Estyn. Mae'r proffil rhanbarthol ar hyn o bryd yn dangos bod 6 ysgol [12.9%] yn y categori statudol. Mae cynnydd wedi bod yn gryf mewn dwy o'r ysgolion ac yn gadarn mewn 1. Rydym yn disgwyl y bydd o leiaf 2 o'r ysgolion hyn yn cael eu tynnu o'r categori yn ystod y tymor cyntaf. Mewn 3 ysgol, mae cynnydd yn gyfyngedig ac mae angen gwelliannau sylweddol pellach. Mae swyddogion yr awdurdodau lleol perthnasol yn llwyr

ymwybodol o’n pryderon ac mae cynlluniau cymorth manwl wedi cael eu creu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol.

Arbennig – Nid oedd angen unrhyw gamau gweithredu dilynol gydag un ysgol, a dyfarnwyd y categori dilynol lleiaf dwys i un arall [Adolygiad Estyn].

## 4. GOSOD TARGEDAU

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Ddatganiad Ysgrifenedig yn darparu diweddariad ar drefniadau mesur perfformiad ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyfer 2019 ymlaen. Roedd hwn yn cyflwyno mesurau perfformiad 'interim' newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 o fis Medi 2019 ymlaen (data cohort 2018/19). Bydd y mesurau 'interim' hyn, yn seiliedig ar bwyntiau, yn disodli'r gyfres gyfredol o fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys mesurau cynhwysol Lefel 1 a Lefel 2, o 2019 ymlaen.

Yn y cyfnodau allweddol eraill, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi deddfu i:

- roi’r gorau i gyhoeddi data Asesiadau Athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgol ac ar lefel ranbarthol o 2018/19 ymlaen; a
- sicrhau mai 2016/17 fydd y flwyddyn olaf y bydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi, ar lefel ysgol ac ar lefel ranbarthol, i’r cyhoedd, partneriaid, rhanddeiliaid a gwneuthurwyr polisi.

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi rhoi ystyriaeth frys i ofynion gosod targedau'r ysgol, gyda golwg ar y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno, ac maent wedi bod yn cysylltu gyda'r sector ar sut y gellid rheoli'r trefniadau hyn yn y tymor byr. Fodd bynnag, nid yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol angenrheidiol wedi caniatáu i LlC alinio'r gofynion statudol mor gyflym ag y buasem wedi'i ddymuno.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae disgwyl i ysgolion osod targedau terfynol, targedau wedi'u hadolygu a thargedau dros dro yn erbyn canran y disgyblion sy'n cyflawni mesurau cynhwysol Lefel 1 a Lefel 2, ynghyd â thri tharged yn seiliedig ar hunan arfarniadau. Mae angen i'r Awdurdod Lleol dderbyn y targedau hyn a'u cymeradwyo cyn 31 o Ragfyr fan bellaf. O gofio ein bod yn cael gwared ar fesurau trothwy, rydym yn cydnabod nad yw gofyn i ysgolion osod targedau yn erbyn yr hyn a fydd yn fesurau perfformiad ysgolion darfodedig ymhen fawr o dro yn gwneud synnwyr mwyach.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gofynion statudol cyfredol mewn perthynas â gosod targedau ar gyfer y cyfnodau allweddol perthnasol:

| Cyfnod Allweddol 2 (Disgyblion Blwyddyn 6) | Cyfnod Allweddol 3 (Disgyblion Blwyddyn 9) | Cyfnod Allweddol 4 (Disgyblion Blwyddyn 11) |
|---|---|---|
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Saesneg | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Saesneg | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg |
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r Trothwy Lefel 1 |
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Mathemateg | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Gwyddoniaeth | |
| Canran y disgyblion sydd | Canran y disgyblion sydd | |

| | | |
|---|---|---|
| wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Gwyddoniaeth | wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Mathemateg | |
| *Targed Lleol 1* | *Targed Lleol 1* | *Targed Lleol 1* |
| *Targed Lleol 2* | *Targed Lleol 2* | *Targed Lleol 2* |
| *Targed Lleol 3* | *Targed Lleol 3* | *Targed Lleol 3* |
| **Dylai'r Targedau Lleol adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd drwy hunan arfarniadau.* | | |

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn y broses o gael gwared ar natur benodol y targedau (gan gynnwys mesurau cynhwysol Lefel 1 a Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4) er mwyn cynyddu'r **nifer o dargedau amhenodol, yn seiliedig ar ddeilliannau hunan arfarniadau**.

Mae'r broses ddeddfwriaethol ofynnol yn golygu y bydd yn amhosibl i LlC weithredu'r newidiadau arfaethedig cyn 31 Rhagfyr 2018, pan fydd disgwyl i dargedau fod wedi'u gosod a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. O ganlyniad, bydd yna gyfnod lle nad yw gofynion y rheoliadau'n adlewyrchu bwriadau na disgwyliadau LlC mewn perthynas â gosod targedau.

Yn ystod y cyfnod pontio hwn, bydd angen i ysgolion ac Awdurdodau Lleol ystyried pa dargedau fuasai'n fwyaf priodol iddynt eu gosod eleni.

**Y ffordd ymlaen**

Mae hunan arfarnu effeithiol, gosod targedau effeithiol a chynllunio effeithiol ar gyfer gwelliant wrth wraidd y gwaith o sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion. Er mwyn codi safonau, mae angen i'r proffesiwn arfarnu'n feirniadol ac, os oes angen, newid yr hyn y mae'n ei wneud a sut y mae'n gwneud hynny. Mae'r gwaith o osod targedau effeithiol yn chwarae rôl allweddol yn y broses o godi safonau, ac mae'n rhaid ymgymryd â'r gwaith hwnnw a chynllunio ar gyfer gwelliant ar yr un pryd.

Mae gosod targedau'n caniatáu i ysgolion ganolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd a'r gwelliannau y maent yn dymuno eu gweld. Mae'n cyfrannu at effeithiolrwydd ysgol pan fydd yn cael ei wneud fel rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer gwelliant. Yr hyn sy'n allweddol yw bod ysgolion yn nodi ac yn gosod **targedau gwella priodol sy'n gysylltiedig â'u blaenoriaethau gwella.** Dylid gosod y rhain fel **targedau lleol** wedi'u pennu yn y tabl uchod ac mae'n bosibl y byddant yn cynnwys amcanion penodol a mesuradwy pan fo hynny'n briodol. Fodd bynnag, **ni all yr holl dargedau gwella fod yn feintiol.** Pe buasem yn gofyn i ysgolion osod targedau gwella clir, yna buasai'n caniatáu i'r **targed lleol** fel y mae i fod yn ansoddol neu'n feintiol.

Ni fuasai ysgolion ond yn rhannu eu targedau gwella allweddol (neu eu Targedau Lleol) gyda'r ALl/Consortiwm. Buasai'r Awdurdodau Lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r targedau gwella a osodir gan yr ysgolion. Staff gwella ysgolion sy'n sicrhau ansawdd y broses hon ar ran yr ALl fel arfer. Ni fyddai Targedau Lleol yn cael eu hagregu ar lefel Awdurdod Lleol na rhanbarth.


Yn y cyfnod interim, bydd yn rhaid i ysgolion adrodd yn erbyn y targedau statudol penodol a ddisgrifiwyd yn y tabl uchod hyd nes y gwaredir hwy gan ddeddfwriaeth.

## 5. CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

Fel y nodwyd yn Adroddiad Estyn, mae'r consortiwm yn adnabod ei ysgolion yn gynyddol dda. Mae adroddiadau cyn arolygiad ar gyfer ysgolion gan yr awdurdod lleol, gan ddilyn cyngor gan y consortiwm, yn gyson â deilliannau arolygu i raddau helaeth. Ceir llai o bryderon ymhlith arolygwyr ynglŷn â'r adroddiadau hyn na mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru. Mae


deilliannau arolygu yn dangos bod ysgolion wedi'u categoreiddio'n briodol ar y cyfan.

**Ysgolion Cynradd**




Mae proffil categori cefnogaeth cynradd yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn. Gwelwyd cynnydd yn y ganran o ysgolion cynradd sydd wedi derbyn y dyfarniadau uchaf [A neu B] yng ngham 2 o'r broses - cynnydd o'r 89.0% yn 2016 i 92.0% yn 2017. O ganlyniad gwelwyd cynnydd yn y ganran o ysgolion cynradd yn y categorïau Gwyrdd a Melyn - cynnydd o 84.8% yn 2016 i 88.4% yn 2017. Gwelwyd cynnydd da yn y ganran o ysgolion a ddynodwyd yn wyrdd

**Ysgolion Uwchradd**




Ni welir yr un patrwm cadarnhaol o welliant yn yr uwchradd. Mae'r ganran o'r ysgolion yng nghategori cefnogaeth gwyrdd wedi llithro ychydig o 14.5% i 13%. Serch hynny, mae'r ganran o ysgolion yng nghategori cefnogaeth Gwyrdd/Melyn wedi cynyddu o 58.2% yn 2016 i 63.0% yn 2017. Bu i'r ganran dderbyniodd y dyfarniadau uchaf [A neu B] yng Ngham 2 o'r broses aros yn gymharol sefydlog.

Bydd y broses gategoreiddio genedlaethol yn parhau fel y mae yn 2018-19. Bydd y cymedroli rhanbarthol yn digwydd yn gynnar ym mis Rhagfyr 2018 gyda'r cymedroli cenedlaethol yn digwydd ym mis Ionawr 2019. Bydd y proffil categoreiddio ysgolion terfynol yn cael ei gyhoeddi ar 'Fy Ysgol Leol' ar ddiwedd mis Ionawr 2019 (Cam 2 – capasiti i wella, Cam 3 – categori cefnogaeth). Disgwylir y bydd y proffil categoreiddio ar gyfer y rhanbarth yn gwella eto yn ystod 2018-19 ac mae'r broses yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.